

Argymhellion y Bwrdd Cyfiawnder Menywod i leihau carcharu menywod

**Adroddiad i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Arglwydd
Ganghellor**

Cynnwys

Cyflwyniad – heriau a datrysiadau	3
Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod	6
Gweithredu'r dull system gyfan	7
Crynodeb o'r argymhellion	9
Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod	9
Dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd	9
Ymyrraeth gynnar, ataliad a dargyfeirio.....	9
Datrysiadau cymunedol.....	10
Menywod beichiog a mamau	10
Menywod sy'n oedolion ifanc	10
Atodiad – Argymhellion llawn	11
Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod	11
Dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd	13
Ymyrraeth gynnar, ataliad a dargyfeirio.....	13
Datrysiadau cymunedol.....	16
Menywod beichiog a mamau	20
Menywod sy'n oedolion ifanc	22

Cyflwyniad – heriau a datrysiadau

Mae menywod yn lleiafrif yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynrychioli dim ond 4% o'r boblogaeth carchardai a 17% o'r sawl sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol.¹ Mae digonedd o dystiolaeth ar gyfer cefnogi dull ar sail ryweddol i fenywod sydd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol, neu mewn perygl o fod mewn cyswllt â'r system – dull a fydd yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer y mwyafrif o droseddwr, sef dynion. Daeth yr adroddiad semenol gan y Farwnes Corston, *A review of women with particular vulnerabilities in the Criminal Justice System* (2007) i'r casgliad bod menywod wedi eu gwthio i'r cyrion mewn system a ddyluniwyd yn bennaf gan ddynion i ddynion yn rhy hir, ac roedd yn bryd cyflwyno newid radical. Roedd yr adroddiad yn cynnig dull cyfannol ac unigol sy'n canolbwyntio ar fenywod, ac roedd Strategaeth Troseddwr Benywaidd 2018 y llywodraeth yn adeiladu ar y sylfaen honno.

Tra'n cydnabod rhywfaint o gynnydd, rydym yn siomedig nad oedd y newid radical a geisiwyd gan Farwnes Corston wedi digwydd. Yma, rydym yn nodi'r camau i'w cymryd i ddychwelyd i'r Cynllun Corston ac adeiladu arno, ac rydym yn croesawu cais y Dirprwy Brif Weinidog a'r Arglwydd Ganghellor ein bod yn gwneud ein hargymhellion yn yr adroddiad hwn.

Mae menywod sydd mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol yn aml ymhlith y mwyafrif bregus mewn cymdeithas.² Mae gan lawer anghenion cymhleth ac amrywiol, yn aml yn deillio o'r profiad trawmatig o gam-drin domestig a ffurfiau eraill o drais yn erbyn menywod a merched. Maent yn aml yn brif ofalwyr ac mae nifer wedi disgyn drwy rwyd diogelwch gwasanaethau statudol. Mae'r llywodraeth yn anelu i leihau'r boblogaeth fenywod mewn carchardai yn ddigonol i gau carchar menywod. Mewn geiriau eraill, tua 400 yn llai o fenywod mewn carchar ar unrhyw adeg. Croesewir hyn gan bod y carchar yn ddull aneffeithiol i leihau trosedd ac yn aml mae'n niweidiol iawn. Ar yr un pryd, mae'r ystad carchar menywod o dan bwysau. Rydym angen ailgyfeirio mwy o fenywod o'r carchar, cefnogi mwy o fenywod yn y gymuned ac atal llawer mwy rhag dod i mewn i'r y system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf.

Gweledigaeth Corston, yr ydym yn benderfynol o'i weld yn cael ei symud ymlaen, yw i roi diwedd ar garcharu menywod ym mhob achos heblaw'r rhai mwyafrif difrifol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai menywod gael eu cefnogi yn y gymuned i oresgyn yr hyn sydd wedi achosi iddynt droseddu, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd, mynd i'r afael â drais yn erbyn menywod a merched a salwch, a gwella cyfleoedd bywyd. Dylem hefyd dalu sylw i fenywod a ddedfrydwyd am gyfnod hirach. Mae adolygiadau diweddar yn ein hatgoffa sut mae menywod a merched sy'n dioddef camdriniaeth a chamfanteisio yn gweld eu hunain yn cael

¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, 29 Ionawr 2026, [Offender Management Statistics Quarterly – July to September 2025](#)

² Sheeran, E. (2022) [Identifying Women's Pathways to Offending and the Primary Prevention and Early Intervention Opportunities for Women at Risk of Offending in Wales](#)

eu cosbi yn hytrach na'u hamddiffyn.³ Mae angen newidiadau i systemau a diwylliannau er mwyn atal unigolion sy'n dioddef trosedd rhag cael eu trin fel troseddwr yn ddiangen.

Dylem sicrhau bod menywod yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae yna rwystrau strwythurol i gefnogaeth a chyfiawnder i fenywod Du, Asiaidd, o gefndiroedd lleiafrifol a menywod mudol-gan gynnwys dioddefwyr masnachu pobl – gan arwain at amrywiaethau annerbyniol o ran triniaeth a chanlyniadau.⁴ Mae aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Menywod wedi ymrwymo i weithio gyda'r llywodraeth ac asiantaethau rheng flaen i fynd i'r afael â hyn, gan ddefnyddio dull gwrth-hiliol yn fwriadol.

Bydd nifer o gynigion yn yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol Llysoedd Troseddol yn cyfrannu at leihau carcharu menywod, cyn belled ag y rhoddir sylw i weithredu ystyriol o rywedd. Bydd cenhadaeth y llywodraeth i haneru'r cyfraddau drais yn erbyn menywod a merched a sicrhau strydoedd mwy diogel yn helpu i atal rhai o'r achosion o fenywod yn troseddu. Bydd buddsoddi mewn cymorth buan i deuluoedd, gwaith gan Awdurdodau Cyfunol Maerol ac yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth mewn argyfwng drwy un 'drws ffrynt' a chynlluniau lleol yn cysylltu gwasanaethau i fentrau ieuchyd newydd fel hybiau ieuchyd cymdogol o dan gynllun 10 mlynedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)⁵, yn cyfrannu at ein nod – cyn belled â'u bod wedi cysylltu'n agos gyda gwasanaethau arbenigol menywod lleol a gynhelir gan fenywod i fenywod. Bydd hyn yn darparu cefnogaeth penodol ar sail rhywedd, sy'n ystyriol o drawma ac yn briodol yn ddiwylliannol i fenywod sy'n wynebu anfanteision cyfunol.⁶ Bydd llwyddiant angen buddsoddiad cyson yn y gwasanaethau hyn, gan gynnwys sefydliadau llai sy'n cefnogi menywod Du, Asiaidd, o gefndiroedd lleiafrifol a menywod mudol. Daw'r effaith fwyaf lle bo cynnydd rhanbarthol, yng Nghymru ac ar sail ardal, yn cael ei gydnabod a'i ddatblygu, fel y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yng Nghymru. Rhaid i gyflawniad alinio gyda chyfrifoldebau datganoledig, ynghyd â fframweithiau llywodraethu ac ariannol Maerol a rhai sy'n benodol i Gymru, i ymgorffori ffocws clir ar anghenion amlwg menywod o fewn strwythurau lleol presennol.

Mae'n rhaid i ni ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr cyfiawnder troseddol o'r cymhellion sy'n sbarduno troseddu ymysg menywod, yn arbennig drais yn erbyn menywod a merched ac effaith trawma, a gosod disgwyliadau mwy llym arnynt i weithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol i fenywod. Fel hyn, o'r camau cynharaf o gyswllt menyw â'r y system cyfiawnder troseddol, cesglir gwybodaeth am ei hamgylchiadau i lywio penderfyniadau, gan alluogi'r cyfleoedd gorau i gyfeirio ar gyfer cefnogaeth, yn lle hadnabod menywod fel troseddwr a'u carcharu.

Bydd ehangu Llysoedd Goruchwyliaeth Ddwys yn gwella lles menywod ac yn lleihau trosedd a charcharu. Dylem sicrhau bod opsiynau ar gael ym mhobman i fenywod gyflawni eu dedfryd yn y gymuned gyda chefnogaeth arbenigol, gan aros gyda'u plant ble bynnag bo

³ Gweler er enghraifft: Dame Vera Baird KC (2024) [The Baird Inquiry: An independent report into the experience of people who are arrested and taken into custody by Greater Manchester Police with a focus on women and girls](#); Casey, L. (2023) [Baroness Casey Review: Final Report – An independent review into the standards of behaviour and internal culture of the Metropolitan Police Service](#)

⁴ Women's Justice Reimagined (2025) [Ending racial disproportionality in the criminal justice system: recommendations from the Women's Justice Reimagined partnership and the APPG on women affected by the criminal justice system](#)

⁵ Datganiad i'r wasg Llywodraeth EF, 9 Medi 2025, ['Millions of people to benefit from healthcare on their doorstep'](#)

⁶ Ar gyfer enghreifftiau sefydledig gweler National Women's Justice Coalition: [Women's Services Map](#)

hynny'n bosibl. Mae'n rhaid inni wella ymateb y maes cyfiawnder troseddol i fenywod beichiog a mamau, gan wastad ystyried effaith penderfyniadau ar eu plant ac effaith aflonyddgar cylchoedd o niwed rhwng cenedlaethau. Mae'n rhaid inni ddatblygu dull wedi'i deilwra ar gyfer menywod ifanc⁷, sy'n dueddol yn enwedig o gael eu remandio a hunan niweidio yn y ddalfa. Rydym angen ehangu'r ddarpariaeth o dai â chymorth penodol i fenywod, gan wneud y gorau o fuddsoddiad y llywodraeth. Mae'n rhaid inni wneud defnydd mwy effeithiol o Gyswllt a Chyfeirio gyda'r GIG a datblygu llwybrau rhywedd-benodol cryfach i mewn i wasanaethau iechyd. Mae'n rhaid inni wella cyfleoedd ar gyfer adsefydlu, cynnydd gyda dedfrydau ac ailsefydlu i ferched a garcharwyd. Mae'n rhaid inni adeiladu ar gynnydd a welwyd mewn ardaloedd datganoledig fel Manceinion, Birmingham a Chymru.

Bu'n bolisi'r llywodraeth ers 2018 i leihau'r nifer o fenywod sy'n cael eu carcharu a chynyddu'r defnydd o ddatrysiadau yn y gymuned, gan ddefnyddio dull system cyfan sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyfannol, rhywedd-benodol, sy'n ystyriol o drawma, i fenywod yn y gymuned, gan ddefnyddio dull datrys problemau. Mae'r dull hwn, pan oedd wedi'i weithredu'n effeithiol, wedi lleihau'r nifer o fenywod a garcharwyd. Mae gwaith effeithiol ac addawol yn cael ei wneud mewn rhai ardaloedd, gydag arweinyddiaeth gref gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf, llywodraeth leol a gwasanaethau arbenigol i fenywod, er gwaethaf cyfyngiadau ar adnoddau. Fodd bynnag, mae ei weithrediad wedi bod yn ysbeidiol. Nid oes unrhyw sail statudol i'r dull hwn ar gyfer menywod (yn wahanol i'r system cyfiawnder ieuenctid) ac ni fu llawer o gefnogaeth, cyfathrebiadau a rheolaeth ganolog i gefnogi ei weithredu'n wirfoddol. Mae gwella'r darlun hwn angen arweinyddiaeth gadarn uwch gan y llywodraeth, i lywio gwaith tuag at nodau a rennir ar draws adrannau'r llywodraeth ac mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol, ar sail data wedi'i ddadgyfuno.

Mae gwasanaethau arbenigol i fenywod yn y trydydd sector yn y sefyllfa orau i ddatblygu perthnasoedd hirdymor y gellir ymddiried ynddynt gyda merched sydd wedi cael eu gadael i lawr yn rhy aml. Maent yn darparu gwerth cymdeithasol eithriadol drwy lenwi'r bwlch mewn gwasanaethau statudol ble mae galw gormodol, a helpu menywod i ymgysylltu â thriniaeth, cefnogaeth a'r broses cyfiawnder troseddol. Bydd sicrhau bod y sector menywod yn derbyn rhan deg o fuddsoddiad mewn ailsefydlu cymunedol, a fydd yn hygyrch i'r darparwyr lleiaf, yn cynyddu capasiti a gwydnwch yn y sector hanfodol hwn.⁸

Nid oes 'ateb syml' i'r heriau hyn ond credwn y byddai gweithredu ein hargymhellion, yn seiliedig ar yr egwyddorion uchod, yn lleihau'r cyfraddau carcharu menywod yn sylweddol.

⁷ Gweler er enghraifft: Agenda/Alliance for Youth Justice (2022) [“We’ve not given up” – Young women surviving the criminal justice system](#)

⁸ Gweler er enghraifft: Women's Budget Group & National Women's Justice Coalition (2025) [The Women's Centre Model – The financial case for alternatives to prison](#); Women in Prison (2022) [The value of women's centres](#); Women's Budget Group (2020) [The case for sustainable funding for women's centres](#); NEF (2008), [Unlocking value: how we all benefit from investing in alternatives to prison for women offenders](#)

Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod

Rydym wedi cynnig y dylai Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod gael ei sefydlu o fewn cyfnod penodol ar gyfer y gwaith hwn. Bydd wedi'i arwain ar y cyd gan dîm ymroddedig o swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Credwn fod angen yr adnodd ychwanegol hwn i lywio'r agenda ddiwygio, oherwydd y galw gan waith 'busnes fel arfer' a graddfa uchelgais y diwygiadau. Dylai tîm y rhaglen oruchwylio'r cyflawniad o'r holl gamau a fwriadwyd yn yr adroddiad hwn, ac arwain ar gwblhau'r tri prosiect deuddeg mis o hyd a nodwyd yn Argymhelliad 1. Er mwyn sicrhau darpariaeth gyson, rydym yn cynnig model lywodraethu weinidogol y cytunwyd arno ar y cyd, gan alluogi ymgysylltu dwyochrog rhwng portffolios Llywodraeth Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU.

Gweithredu'r dull system gyfan

Mae lleihau cyfraddau carcharu menywod drwy ddull system gyfan yn golygu cymryd pob cyfle i gyfeirio menywod mewn perygl, neu a fydd mewn perygl o fynd i gyswllt gyda'r y system cyfiawnder troseddol i gefnogaeth benodol i fenywod yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys llety dros dro ble bo'r angen, a llwybrau i dai a gwasanaethau gofal iechyd parhaol, yn arbennig ar gyfer defnydd sylweddau niweidiol ac anghenion iechyd meddwl. Mae hyn angen derbyn cefnogaeth gadarn gan amryw o asiantaethau lleol, yn ddelfrydol o dan lywodraethu cyfunol a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r camau ble mae cyfleoedd i ailgyfeirio menywod a lleihau'r risg o garcharu niweidiol.

Cam	Cyfle ar gyfer ailgyfeirio
Cyn cysylltiad gyda'r y system cyfiawnder troseddol	Sicrhau mynediad i gefnogaeth benodol i fenywod ar gyfer menywod mewn perygl o gysylltiad gyda'r y system cyfiawnder troseddol – gan gynnwys cefnogaeth glir ar gyfer menywod Du ac Asiaidd, menywod o gefndiroedd lleiafrifol, menywod mudol, a menywod ifanc – gan ganiatau ar gyfer ymyrraeth fuan ac atal troseddu cyn dod i gysylltiad gyda'r y system cyfiawnder troseddol.
Pwynt arestio	Penderfyniad i ailgyfeirio o erlyn ble bo'n bosibl, gydag atgyfeirio i gefnogaeth – drwy beidio arestio/canlyniad 22/rhybudd amodol/datrysiad arall y tu allan i'r llys neu erlyniad gohiriedig neu Penderfyniad i erlyn ble bo'r angen, gan atgyfeirio ar gyfer cefnogaeth, gan roi cyfle i ddangos capasiti ar gyfer adsefydlu cyn treial a dedfrydu.
Gwrandawriad llys ar fechnïaeth/remand	Penderfyniad i fechnïo gydag atgyfeirio ar gyfer cefnogaeth yn hytrach na remandio i'r carchar – canolbwyntio ar lety sydd ei angen.
Proses treial	Bydd diffynyddion benywaidd gyda chefnogaeth arbenigol mewn lle gwell i gyfrannu at achosion a darparu gwybodaeth gyd-destunol i helpu erlynwyr, cyfreithwyr amddiffyn a'r llys i ystyried yn briodol cyd-destun eu trosedd honedig.
Dedfrydu	Penderfyniad i ohirio dedfrydu neu gyflwyno Gorchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig ble bo'n bosibl, gyda chefnogaeth ynghlwm. Mae'r Llysoedd Goruchwylliaeth Ddwys yn allweddol yma. Ble na ellir osgoi carcharu, gall cynllunio ar gyfer rhyddhau gychwyn ar ddechrau'r ddedfryd, gyda gwybodaeth am anghenion cefnogaeth y fenyw.
Ar ôl rhyddhau	Mae atgyfeirio'n effeithiol i gefnogaeth fel rhan o gynllunio cyn rhyddhau, drwy'r giât ac ar ôl rhyddhau, yn lleihau risg o alw yn ôl ac/neu aildroseddu.

Bydd dull system gyfan, gyda gwasanaethau arbenigol i fenywod yn ganolog iddo, yn cynnig cefnogaeth gyfannol, ystyriol o drawma, rhywedd-benodol, drwy gefnogaeth gweithiwr allweddol 1:1 a 'siop un stop' o wasanaethau a gyd-leolir, gan alluogi i bob maes o angen trawsbynciol dderbyn sylw yn ystod pob cam a restrwyd yn y tabl:

- Menywod beichiog a mamau
- Menywod Du, Asiaidd, menywod o gefndiroedd lleiafrifol a menywod mudol
- Tai addas
- Anghenion iechyd – yn arbennig iechyd meddwl a defnydd o sylweddau niweidiol
- Dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, camfanteisio'n rhywiol, masnachu pobl a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched
- Menywod ifanc, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal
- Tlodi a dyled
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae gwasanaethau arbenigol menywod yn y gymuned yn hanfodol ar gyfer hyn. Mae eu cyllid yn gymhleth ac yn ansicr, tra bod eu gwaith yn heriol ac yn emosiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at drosiant staff uchel, staff yn 'llosgi allan' ac anawsterau recriwtio. Mae amser ac adnoddau prin yn cael eu defnyddio yn cwblhau ceisiadau am arian ac adroddiadau i gyllidwyr, gan leihau'r amser sydd ar gyfer i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth. Mae'r sector yn hynod greadigol, effeithiol, ymroddedig a gwydn yng nghanol y pwysau hwn, ond gallai gyflawni mwy gyda chyllid digonol a chynaliadwy ar gyfer ei waith hanfodol.

Mae gwaith â ffocws gan y Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod i drawsnewid cyllido gwasanaethau arbenigol i fenywod yn hanfodol. Dylai hyn gynnwys gwaith i ddeall effaith debygol yr argymhellion Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a Adolygiad Annibynnol Llysoedd Troseddol a gwaith brys i ddarparu cyllid yn y tymor byr i gefnogi llwybrau atgyfeirio.

Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol, a gyfeirir i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder oni bai y nodwyd yn wahanol, wedi eu nodi'n fwy manwl yn yr atodiad.

Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod

1. Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru sefydlu Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod am gyfnod o ddwy i dair blynedd, a arweinir ar y cyd gan dim ymroddedig o swyddogion Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda thîm polisi troseddwyd benywaidd Weinyddiaeth Gyfiawnder, Grŵp Menywod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a rhanddeiliaid allanol, i ddarparu goruchwyliaeth ar gyfer cyflawni'r holl gamau gweithredu a gynigiwyd yn yr adroddiad hwn ac i arwain tri phrosiect yn ystod y flwyddyn nesaf:
 - a. Sbarduno'r gweithrediad o'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol Llysoedd Troseddol mewn ffordd sy'n seiliedig ar rywedd.
 - b. Cefnogaeth ddwys i ddatblygu dulliau system gyfan lleol.
 - c. Trawsnewid cyllid gwasanaethau arbenigol i fenywod a datgloi ffynonellau eraill o gefnogaeth i fenywod.

Dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd

2. Dylid mabwysiadu dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol ar gyfer yr holl waith hwn, i fynd i'r afael ag anghyfartaledd a wynebir gan fenywod Du ac Asiaidd, menywod o gefndiroedd lleiafrifol a menywod mudol, a'r sawl sydd â nodweddion gwarchodedig eraill.

Ymyrraeth gynnar, ataliad a dargyfeirio

3. Cyflwyno cymhelliant, dulliau atebolrwydd a chefnogaeth i sicrhau bod gan bob heddlu lwybrau dargyfeirio rhywedd-benodol sy'n ystyriol o drawma i fenywod, gan gynnwys ffocws cryf ar leihau arestiadau a chynyddu erlyniad gohiriedig.
4. Gwella craffu o, ac ehangu ar atgyfeiriadau i lwybr Gyswllt a Chyfeirio i fenywod y GIG, i sicrhau ymarfer cyson, effeithlon ym mhobman.
5. Cryfhau gwneud penderfyniadau gan yr heddlu ac erlynwyr ynghylch ddioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched a gyhuddir o droseddu a darparu amddiffyniadau effeithiol.
6. Mynd i'r afael â thrin fenywod fel troseddwyd am beidio â thalu dirwyon o ganlyniad i osgoi talu trwydded deledu, treth y cyngor neu driwantiaeth.

Datrysiaidau cymunedol

7. Lleihau remand a galw yn ôl i bob menyw drwy ddeddfwriaeth a gwaith â ffocws o dan y Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod.
8. Rhoi cefnogaeth i ehangu'r Llysoedd Goruchwyliaeth Ddwys i fenywod yn effeithiol.
9. Gwella rhagolygon adsefydlu drwy ddileu rhwystrau i gyflogaeth.
10. Cynnal astudiaeth gyflym i amgylchiadau ac anghenion merched â dedfryd hirach yn y carchar ar hyn o bryd. Ei bwrpas fydd i gefnogi cynnydd gyda dedfrydau unigolion a gwella dealltwriaeth i leihau carcharu yn y dyfodol, ble bo'n briodol, i ferched sydd wedi eu cyhuddo o droseddau mwy difrifol.

Menywod beichiog a mamau

11. Deddfu i ddod â charcharu menywod beichiog i ben ym mhob achos heblaw rhai eithriadol; ymgorffori a chryfhau gwelliannau i ofalu am fenywod beichiog ble na ellir osgoi carcharu; datblygu a hyrwyddo dewisiadau preswyl eraill yn lle'r ddalfa i fenywod beichiog eu defnyddio fel llety mechnïaeth, neu fel rhan o ddedfryd cymunedol.
12. Hyrwyddo dedfrydu heb carcharu ar gyfer mamau plant o dan 18 oed drwy gyfarwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth gyda dedfrydwyr.
13. Gwella deilliannau i fenywod beichiog a mamau sydd mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol.

Menywod sy'n oedolion ifanc

14. Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Menywod Ifanc yn y flwyddyn nesaf sydd wedi'i anelu at atal menywod ifanc rhag dod i mewn i'r y system cyfiawnder troseddol a chael eu carcharu, yn arbennig menywod ifanc â phrofiad gofal a dioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched (gan gynnwys dioddefwyr caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a chamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol). Bydd wedi'i alinio'n strategol gyda diwygiadau cyfiawnder ieuenctid ac yn cynnwys ffocws cadarn ar leihau cyfraddau remand a chynyddu mynediad i gefnogaeth 1:1, mentora a thai addas.
15. Darparu cefnogaeth iechyd a lles penodol i fenywod ifanc sydd mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai yn y carchar.

Atodiad – Argymhellion llawn

Cyfeirir yr argymhellion hyn at yr Weinyddiaeth Gyfiawnder oni bai y nodwyd yn wahanol. Nodir yn y golofn ar y dde ble bydd angen cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth.

Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
1. Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru sefydlu Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod am o ddwy i dair blynedd, o dan arweiniad tîm ymroddedig o swyddogion Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Byddant yn gweithio'n agos â thîm polisi troseddwy'r benywaidd yr Weinyddiaeth Gyfiawnder, Grŵp Menywod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a rhanddeiliaid allanol i oruchwylio'r cyflawniad o bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Byddant hefyd yn arwain tri phrosiect blaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf – gan gynnwys canolbwyntio ar fenywod du ac Asiaidd, menywod o gefndiroedd lleiafrifol, menywod mudol, a menywod ifanc sy'n oedolion: a. Cymell ac olrhain gweithrediad sy'n seiliedig ar rywedd o'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol Llysoedd Troseddol i bob menyw: gan anelu at leihau'r cyfraddau carcharu cymaint ag sy'n bosibl a lliniaru risgiau. Cynnwys mesurau rhagweithiol i sicrhau bod dedfrydwyr yn parhau i ddefnyddio darpariaeth 'lleoli mewn canolfan ddiogel' a gosod Gorchymyn Cymunedol ble bo'n briodol. b. Cefnogi datblygiad dwys o'r dull system gyfan mewn ardaloedd lleol a datblygu adnodd o opsiynau ar gyfer sefydlu llety a llwybrau gofal iechyd effeithiol, rhywedd-benodol, gan weithio gyda Grŵp Menywod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a rhanddeiliaid allanol: (i) cefnogaeth ddwys i rhanddeiliaid allweddol mewn rhanbarthau prawf gyda phoblogaeth uchel i sefydlu neu wella eu darpariaeth; a (ii) datblygu fforwm canolog ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ehangach a	Trysorlys EF (DU cyfan), gyda chyllid yn cael ei ddarparu drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru yng Nghymru Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Gwaith a Phensiynau (DU cyfan), yn gweithio ochr yn ochr â darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru) Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
darparu adnoddau i hyrwyddo llwybrau effeithiol i lety a gofal iechyd. c. Datblygu a hyrwyddo cynigion i drawsnewid cyllido gwasanaethau arbenigol i fenywod a datgloi ffynonellau cefnogaeth eraill i fenywod, gan adeiladu ar waith Grŵp Ymgynghorol Lleihau Aildroseddu y Trydydd Sector a Bwrdd Partneriaeth Strategol y Trydydd Sector, gan gynnwys: i) Dadansoddiad ariannol o ailddyrannu cyllid carchar i fynd i'r afael â bylchau cyllid cyffredin fel lety a gefnogir sy'n benodol i fenywod, archwilio i uwchgyfrifo modelau cyllid cymdeithasol fel y model Hope Street, a gwaith arall i ddatgloi ffynonellau posibl o gyllid a chefnogaeth. ii) Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gydag arweinwyr Tai a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i archwilio i glustnodi cyfran o fuddsoddiad tai cymdeithasol newydd, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol yng Nghymru, i ystyried datrysiadau fel: cynyddu stoc dai fforddiadwy ar gyfer llochesi menywod a gynhelir gan gymdeithasau tai (cysylltu gyda Strategaeth Mynd i'r Afael â drais yn erbyn menywod a merched); cynyddu stoc dai cam i lawr i fenywod sy'n mynd drwy wasanaethau menywod; cynyddu buddsoddiad mewn cynlluniau 'byw a gweithio' sy'n darparu tai fforddiadwy i fenywod ifanc.⁹	diogelwch cymunedol wedi eu datganoli

⁹ Gwefan St Basil, ymwelwyd 8 Rhagfyr 2025: [Live and Work](#)

Dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
2. Dylid mabwysiadu dull gwrth-hiliol, rhyngadrannol ar gyfer yr holl waith hwn, i fynd i'r afael ag anghyfartaledd a wynebwr gan fenywod Du ac Asiaidd, menywod o gefndiroedd lleiafrifol a menywod mudol, a'r sawl sydd â nodweddion gwarchodedig eraill. Dylai hyn gynnwys: a. Monitro i ganfod gwahaniaethau a mesur cynnydd: b. Gweithredu, mewn partneriaeth â merched gyda phrofiad yn eu bywydau a gwasanaethau arbenigol, i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau sydd eisoes yn hysbys neu a ganfuwyd; c. Cyflwyno dyfarniadau a dulliau atebolrwydd i annog camau gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethau; a d. Chomisiynu adolygiad o anghymesuredd hiliol i fenywod mewn perthynas ag arestio a dedfrydu, gan gynnwys canolbwyntio ar ymosodiadau ar weithiwr brys.	-

Ymyrraeth gynnar, ataliad a dargyfeirio

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
3. Cyflwyno cymhelliant, dulliau atebolrwydd a chefnogaeth i sicrhau bod gan bob heddlu lwybrau dargyfeirio rhywedd-benodol, sy'n ystyriol o drawma i fenywod, gan gynnwys ffocws cryf ar leihau arestiadau a chynyddu erlyniad gohiriedig: a. Dynodi dargyfeirio a chyfeirio i gefnogaeth fel canlyniadau cadarnhaol o dan reolau cofnodi datrys trosedd yr heddlu, i gymell yr heddlu ac asiantaethau eraill i ddefnyddio cynlluniau cyfeirio yn fwy cyson, gan gynnwys lleihau arestiadau diangen a chynyddu erlyn gohiriedig;	Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
b. Ei wneud yn ofynnol i bob heddlu weithredu dargyfeirio menywod. I hwyluso hyn, rydym yn argymhell: i) Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i gydweithio i greu disgwyliadau ar yr heddluoedd i gael cynlluniau dargyfeirio menywod, gan gynnwys newidiadau i fframwaith arolygu/dulliau cymhelliant Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys gan yr heddlu; ii) Ei wneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau arbenigol i fenywod yn y gymuned, gyda'r heddlu'n gweithredu fel asiant atgyfeirio dibynadwy ar y cyfle cyntaf; iii) Sicrhau bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd/Dirprwy Feiri yn atebol am gomisiynu gwasanaethau menywod ar gyfer dargyfeirio ac ymgynnull yr heddlu a phartneriaid eraill (e.e. gwasanaethau iechyd) i sicrhau gwasanaethau integredig; ac iv) Archwilio i ddyrannu cyfran o gyllid prawf newydd neu gyllid Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol yn y dyfodol, i ariannu gwasanaethau menywod ar gyfer dargyfeirio. c. Pob heddlu i dderbyn hyfforddiant rhywedd-benodol, sy'n ystyriol o drawma i gryfhau gwneud penderfyniadau ymhlith yr holl swyddogion a staff, gan gynnwys penderfyniadau am fenywod ifanc a dioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched, y sawl sy'n niwroamrywiol a mynd i'r afael ag anghyfartaledd hiliol. d. Sefydlu uwch arweinwyr yn yr heddluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, rhanbarthau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ac arweinwyr barnwrol rhanbarthol a meinciau ynadon ar wella'r ymateb i fenywod dan amheuaeth a diffynyddion sy'n fenywod, gan gynnwys dargyfeirio a mesurau diogelu rhywedd-benodol i ddioddefwyr drais yn erbyn menywod a	

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
merched sydd dan amheuaeth neu sy'n ddiffnyddion.	
4. Gwella craffu o, ac ehangu ar atgyfeiriadau i lwybr Gyswllt a Chyfeirio i fenywod y GIG i sicrhau ymarfer cyson, effeithlon ym mhobman: a. Sefydlu llwybr Gyswllt a Chyfeirio penodol i fenywod ym mhob dalfa a llys ac archwilio lleoliadau posibl eraill, fel canolfannau i fenywod, a chysylltiadau cryfach gyda gofynion triniaeth iechyd meddwl, asesiadau niwroddatblygiad, alinio gyda'r defnydd o sylweddau niweidiol a llwybrau triniaeth iechyd meddwl ac adfer. b. Gwella'r llwybr i fenywod i gefnogaeth amserol a phriodol i bob menyw ac ehangu sgrinio, gan gynnwys gofynion ar gyfer cynlluniau partneriaeth gweithredol lleol i gynnwys gwasanaethau arbenigol i fenywod, asiantaethau iechyd eraill a mentrau cymorth cynnar. c. Gwella'r craffu o lwybr Gyswllt a Chyfeirio i fenywod y GIG, gan gynnwys archwilio darpariaeth Gyswllt a Chyfeirio, olrhain y dyraniad o arian, casglu data, rhannu gwybodaeth, dadansoddi a mesur canlyniadau i fenywod. d. Archwilio modelau newydd o asesu anghenion ac amgylchiadau menywod, gan gynnwys drais yn erbyn menywod a merched, i gynyddu dargyfeirio priodol.¹⁰	Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru)
5. Cryfhau penderfyniadau a wneir gan yr heddlu ac erlynwyr am ddioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched a gyhuddir o droseddu a darparu amddiffyniadau effeithiol:¹¹ a. Gweithredu protocol ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i wella ymatebion ble mae unigolion dan amheuaeth a diffnyddion	Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli

¹⁰ Gweler er enghraifft: Llywodraeth y DU (2025), [The health of people in prison, on probation and in the secure NHS estate in England](#); Pemberton, S. et al, (2025) [Women's Risk Needs Assessment UK Validation: Preliminary Findings Report](#)

¹¹ Gweler er enghraifft: Centre for Women's Justice (2024) [Effective defences for victims of domestic abuse who are accused of offending](#); O'Loughlin et al (2024) [Defendants as Victims: a scoping review of vulnerability, victimhood and safeguards from charge to conviction](#)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
hefyd yn ddioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched, gan ddefnyddio dull dan arweiniad cyd-destun, sy'n ystyriol o drawma mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol i fenywod. b. Deddfu i gyflwyno amddiffyniadau effeithiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a gyhuddir o droseddu, drwy gefnogi cyflawni dull a arweinir gan y cyd-destun sy'n cymryd profiad y diffynnydd o gamdriniaeth, i ystyriaeth yn briodol.	
6. Mynd i'r afael â lefel anghymesur o droseddoli menywod am beidio â thalu dirwyon o ganlyniad i osgoi talu trwydded deledu, treth y cyngor neu driwantiaeth, gan gryfhau ymgysylltu ac atebolrwydd awdurdod lleol.	Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru)/Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr) Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (Lloegr)/Portffolio Diwylliant, Chwaraeon a'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru (Cymru)

Datrysiaidau cymunedol

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
7. Lleihau remand a galw yn ôl i fenywod drwy ddeddfwriaeth a gwaith â ffocws o dan y Rhaglen Diwygio Cyfiawnder i Fenywod: a. Sicrhau bod dysgu cenedlaethol yn dod o adolygiad remand a gyd-gomisiynwyd gan HMP & YOI Parc Eastwood a Glasbriant Cymru, gan	Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
gynnwys effaith y swydd newydd o Bennaeth Remand. b. Sicrhau atebolrwydd dros yr hyn a ddysgir gan ffrydiau gwaith galw yn ôl Grŵp Menywod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, gan gynnwys gwerthuso effaith ac ymgorffori arfer da yn seiliedig ar werthuso prosiect galw yn ôl Canolfan i Fenywod Sir Gaerhirfryn yng Ngharchar EF Styal. c. Cyflwyno rhagdybiaeth gryfach yn erbyn cadw yn y ddalfa i bawb heblaw'r troseddau mwyaf difrifol, yn arbennig i fenywod ifanc sy'n oedolion yn sgil cyfraddau remand uchel.¹² d. Cymell awdurdodau lleol i weithio gyda gwasanaethau menywod i gryfhau llwybrau tai a gofal cymdeithasol ar y pwynt penderfyniadau remand ac wrth ailsefydlu. e. Ystyried dewisiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i weithredu argymhellion Adolygiad Dedfrydu Annibynnol i dynhau'r trothwy galw yn ôl fel ei fod ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer diffyg cydymffurfiaeth cyson gydag amodau trwydded neu risg penodol ac ar ddigwydd, gyda ffocws ar fenywod. Gall gynnwys atgyfeiriadau torri amodau llysoedd neu i wasanaethau cymunedol ar gyfer ymyrraeth ychwanegol. Gallai model rheoli dwys gael ei brofi ble mae yna batrwm o dorri amodau 'technegol'. Ystyried Fframwaith P3 Manceinion Fwyaf (Problemus, Mynych a Chyson lawn). f. Ystyried argymhellion y Cynghrair Diwygio Galw yn Ôl, gan gynnwys cyd-gynhyrchu amodau trwydded a gwella cyfathrebu; fframweithiau penderfynu cliriach a sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn annibynnol mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.	Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru)

¹² Sharpe, G. (ar y ffordd) 'An examination of 'good' staff relationships and understandings of 'safety' and 'security' amongst young adult women in prison.' Prifysgol Sheffield, Canolfan Ymchwil Troseddegol

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
g. Diwygio deddfwriaeth i roi'r gorau i ddefnyddio carchar fel lle diogel, pa un a yw'n seiliedig ar angen iechyd meddwl ai peidio. h. Cryfhau llwybrau llety ar bwynt remand ac ailsefydlu (i leihau galw yn ôl) gan dynnu o fodolau addawol i fenywod (e.e. Hope Street) a phobl ifanc (e.e. Cynllun Braenaru Llety Llundain¹³). Gallai'r ganolfan breswyl i fenywod a fwriedir yng Nghymru fod yn safle profi ar gyfer llety ar bwynt remand. i. Datblygu prosiect i leihau remand ar gyfer menywod mudol, gan gynnwys ffocws ar wella llwybrau llety. j. Cynyddu effaith mesurau newydd i sicrhau bod penderfyniadau remand yn cymryd cam-drin domestig a beichiogrwydd i ystyriaeth. k. Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Mechnïaeth ffocws penodol ar ferched ac ymestyn y ddarpariaeth, yn arbennig ar benwythnosau.	
8. Cefnogi ehangu Llysoedd Goruchwyliaeth Ddwys i fenywod yn effeithiol i leihau'r nifer o ddedfrydau o garchar: a. Casglu arfer gorau i lywio fframweithiau polisi, gan gynnwys ymgysylltu gyda rhwydweithiau'r Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder ynghylch llysoedd datrys problemau menywod¹⁴ a'r Llysoedd Teulu, Cyffuriau ac Alcohol. b. Ymgysylltu gyda'r farnwriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r diwygiadau hyn, i archwilio eu hawydd i arwain rhaglen mwy uchelgeisiol o hyfforddiant ac arweinyddiaeth farnwrol yn y dyfodol. c. Nodi meysydd addas ar gyfer safleoedd peilot pellach, blaenoriaethu cynigion o gydweithio gydag asesiadau o anghenion menywod ar sail tystiolaeth; sicrhau bod gwasanaethau arbenigol i	-

¹³ Canolfan Adnoddau Cyfiawnder Ieuenctid: [London Accommodation Pathfinder and Storyboard](#)

¹⁴ Centre for Justice Innovation (2025) [Problem solving courts for women: an evidence and practice briefing](#)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
fenywod yn cael eu hymgorffori mewn safleoedd peilot. d. Monitro a gwerthuso effaith gwasanaethau arbenigol i fenywod sy'n defnyddio fframweithiau ac adnoddau asesu anghenion a arweinir gan dystiolaeth, sy'n ystyriol o drawma a rhyweddol, i nodi a hybu arfer gorau.	
9. Gwella rhagolygon adsefydlu drwy ddileu rhwystrau i gyflogaeth i fenywod gyda chofnod troseddol lefel isel: Dechrau adolygiad traws-adrannol cyflym rhwng Weinyddiaeth Gyfiawnder, Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref i effaith cofnodion troseddol lefel isel fel rhwystr i gyflogaeth ar gyfer menywod. Defnyddio hyn i ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer lleihau datgelu cofnodion ansylweddol neu newid y gyfraith, i gefnogi menywod i weithio drwy ddedfrydau cymunedol ble bo'n bosibl, yn ystod y Senedd hon.¹⁵	Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli Adran Gwaith a Phensiynau (DU cyfan), yn gweithio gyda darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru yng Nghymru.
10. Cynnal astudiaeth gyflym i amgylchiadau ac anghenion merched â dedfryd hirach yn y carchar ar hyn o bryd, gan gynnwys dedfryd oes a dedfryd Carcharu i Ddiogelu'r Cyhoedd, i gefnogi cynnydd dedfrydu unigol a gwella dealltwriaeth i leihau carcharu yn y dyfodol ble bo'n briodol i ferched sydd wedi eu cyhuddo o droseddau mwy difrifol. Dylai'r astudiaeth hon adeiladu ar ymchwil gynharach¹⁶ ac anelu i gynorthwyo cynnydd dedfrydu i fenywod unigol, dysgu i wella arferion heddlu ac erlyniad, achosion llys ac amddiffyniadau cyfreithiol yn yr achosion hyn, gan gysylltu gydag adolygiad Comisiwn y Gyfraith o laddiad. Dylai gynnwys sylw i ddelio gydag achosion sy'n cynnwys diffynyddion sy'n ddioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched a'r graddau y cafodd hyn ei	-

¹⁵ Ystyryr ymgryrch [FairChecks](#) ac ymchwil [Working Chance](#) fel man cychwyn.

¹⁶ Gweler er enghraifft: Hulley, S. (2021) [Defending 'Co-offending' Women: Recognising Domestic Abuse and Coercive Control in 'Joint Enterprise' Cases Involving Women and their Intimate Partners](#); Centre for Women's Justice (2021) [Women who kill: How the state criminalises women we might otherwise be burying](#); Clarke, B. and Chadwick, K. (2020) [Stories of Injustice: The criminalisation of women convicted under joint enterprise laws](#); Prison Reform Trust (2024) [Invisible Women: Understanding women's experiences of long-term imprisonment – Briefing 3: Progression](#)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
gymryd i ystyriaeth mewn achosion, gan anelu i leihau carcharu diangen.	

Menywod beichiog a mamau

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
11. Deddfu i ddileu pwerau'r llys i garcharu menywod y gwyddir sy'n feichiog (ar remand, dedfryd, galw yn ôl neu dorri amodau) oni bai bod y gyfraith wedi mandadu neu ble na fyddai gwneud hynny yn arwain at risg penodol ar ddigwydd. a. Ble na ellir osgoi carcharu, gwella diogelwch a lles i fenywod beichiog yn y carchar a'u babanod drwy sicrhau bod gweithredu argymhellion y Prif Weithiwr Cymdeithasol yn cael¹⁷ ei ymgorffori a'i gynnal gan Adran Addysg ac Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, gan gynyddu'r defnydd o Unedau Mamau a Babanod, cryfhau'r llwybrau amenedigol, trefnu bod gweithwyr cymdeithasol wedi eu lleoli ym mhob carchar a chynyddu ymgysylltiad ac atebolrwydd awdurdod lleol. b. Hwyluso'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i gwblhau'r adolygiad atal menywod beichiog yn y carchar yn brydlon a sicrhau y dysgir yn gyflym ac adroddir arno'n gyhoeddus. c. I fenywod beichiog yn y carchar nad ydynt yn dymuno cael eu cadw mewn Uned Mamau a Babanod neu y canfyddir nad ydynt yn gymwys yn dilyn asesiad, ystyried sefydlu unedau bach amgen i gynyddu eu diogelwch a lles a chanolbwyntio ar arbenigedd. d. Cefnogi'n helaeth a hyrwyddo datblygiad a defnydd o ddewisiadau preswyl amgen yn lle'r carchar i fenywod beichiog ar bwynt remand, dedfryd ac ar ôl rhyddhau, dysgu o Hope Street,	Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru) Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru)

¹⁷ Yr Adran Addysg (2022) [Applications to mother and baby units in prison: how decisions are made and the role of social work](#)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
i'w ddefnyddio fel llety mechnïaeth neu fel rhan o Orchymyn Cymunedol, Gorchymyn Dedfryd Ohiriedig neu drefniant dedfryd wedi'i gohirio. Gallai'r Canolfan Breswyl i Fenywod a fwriedir ar gyfer Cymru fod yn safle ar gyfer profi'r ddarpariaeth hon.	
12. Hyrwyddo dedfrydu cymunedol o famau plant o dan 18 oed drwy gyfarwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth gyda dedfrydwyr: a. Cyflwyno rhaglen codi ymwybyddiaeth a chyfarwyddyd penodol ar gyfer dedfrydwyr i beidio carcharu unigolion sy'n brif ofalwr ar gyfer plentyn hyd at ddwy oed heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, i leihau gwahanu oddi wrth y fam yn y 1001 diwrnod cyntaf hanfodol o fywyd y plentyn. b. Hyrwyddo dedfrydu cymunedol i famau plant o dan 18 oed, drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol a gwella adroddiadau cyn-dedfrydu (a ffurfiau eraill o wybodaeth a ddarperir i'r llysoedd) i hwyluso penderfyniadau.	Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru)
13. Gwella deilliannau i fenywod beichiog a mamau drwy gydol y broses cyfiawnder troeddol: a. Datblygu cyfeirlyfr o lety a hyrwyddo gydag ymarferwyr i lywio datblygiad protocol amlasiantaethol i gefnogi menywod beichiog a mamau mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol i lety addas. b. Gwella casglu data ar blant rhieni yn y y system cyfiawnder troseddol. c. Cyflwyno fframwaith polisi prawf yr un fath ag un a ddefnyddir mewn carchardai i fenywod a babanod yn y 1001 diwrnod cyntaf, arwain goruchwyliaeth, amodau trwydded a gofynion	Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru)

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
gorchymyn cymunedol, penderfyniadau mechnïaeth a galw yn ôl. ¹⁸	

Menywod sy'n oedolion ifanc

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
14. Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Menywod Ifanc yn y flwyddyn nesaf a anelwyd at atal menywod ifanc rhag mynediad i'r y system cyfiawnder troseddol a charchariad, yn arbennig menywod ifanc â phrofiad gofal a dioddefwyr drais yn erbyn menywod a merched (gan gynnwys caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a chamfanteisio'n rhywiol neu droseddol), gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu gyda menywod ifanc sy'n oedolion, a gefnogir gan wasanaethau rheng flaen: a. Gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Strategol Cyfiawnder i Fenywod newydd ac adolygiad yr Adran Addysg o'r Protocol Cenedlaethol i leihau'r troseddoli o blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal. Yng Nghymru, symud ymlaen gyda gweithgaredd drwy Wasanaethau Plant datganoledig a threfniadau Cyfiawnder Ieuenctid, sydd wedi'i alinio gyda fframweithiau diogelu a llywodraethu Cymru gyfan. b. Ymchwilio dulliau addawol ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan a sut y gellir ailadrodd y rhain. c. Gwella gweithrediad dull system gyfan ar gyfer menywod ifanc – cynyddu mynediad i gefnogaeth 1:1, mentora, tai addas a gwasanaethau ieuchyd meddwl. Ni ddylai ymgysylltu fod yn amod o fechnïaeth, gorchymyn cymunedol na dedfryd ohiriedig, gan fod diffyg cydymffurfiaeth yn hynod	Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru) Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)/Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Gwaith a Phensiynau (DU cyfan), yn gweithio gyda darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganoli

¹⁸ Mae [Birth Companions](#) yn datblygu Offeryn Effaith y 1001 Diwrnod Cyntaf fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2026.

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
debygol ymhlith y grŵp hwn, gan olygu bod carcharu yn debygol.¹⁹ d. Sicrhau y cyflawnir cynlluniau partneriaeth leol i gysylltu agendau ymyrraeth gynnar gyda gwasanaethau menywod ifanc, gan gynyddu'r effaith o fuddsoddiadau eraill y llywodraeth mewn ymyrraeth gynnar²⁰ a iechyd cymunedol.²¹ e. Mabwysiadu arloesedd gofal cymdeithasol llwyddiannus, presennol sy'n gallu atal deilliannau bywyd gwael a throedd yn yr hirdymor, gan gynnwys Llysoedd Teulu, Cyffuriau ac Alcohol, o bosibl drwy glustnodi cyllideb gyfun.²²	
15. Darparu cefnogaeth iechyd a lles penodol i fenywod ifanc mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai yn y carchar: a. Datblygu rhaglen waith amserol i ddysgu gwersi o'r cwest i farwolaeth Alex Davies yng Ngharchar EF Styal ac adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd o fewn blwyddyn. b. Gweithio gyda gwasanaethau menywod a menywod ifanc i: i) Ddatblygu arfer i wella lles menywod ifanc yn y carchar, gan gynnwys mynediad i asesiadau a thriniaethau iechyd meddwl a niwroddatblygiad, mynediad i weithgaredd pwrpasol a chymdeithasol a chymorth cyfoedion; a chyswllt gyda theulu; a ii) Arbenigwr maethu, cefnogaeth gymunedol rhywedd-benodol i fenywod ifanc sy'n oedolion mewn cysylltiad â'r y system cyfiawnder troseddol.	Adran Addysg (Lloegr)/Addysg a Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru (Cymru) Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr)/Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cymru) Y Swyddfa Gartref (Cymru a Lloegr), gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau atal a diogelwch cymunedol wedi eu datganioli Adran Gwaith a Phensiynau (DU cyfan), yn gweithio gyda darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau

¹⁹ Sharpe, G. (ar y ffordd) (gweler fn 12)

²⁰ Datganiad i'r wasg Llywodraeth EF, 20 Ionawr 2025, '[Families to receive £126 million in early years support](#)'

²¹ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025) [Road to recovery: the government's 2025 mandate to NHS England](#)

²² National Centre for Social Research (2023) [Evaluation of Family Drug and Alcohol Courts](#)

Argymhellion y Bwrdd Cyfiawnder Menywod i leihau carcharu menywod

Argymhellion	Adrannau eraill sy'n cyfrannu
	Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Swyddogaethau Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (Cymru)/Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr)